# Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ein polisi ar gynnwys pawb – beth bynnag fo'u ffydd, hil, diwylliant, cenedligrwydd neu gyfeiriadedd rhywiol

*Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2024*

Rydyn ni eisiau adeiladu byd cyfartal lle gall pob merch wneud gwahaniaeth positif, bod yn hapus a diogel a chyrraedd eu potensial.

Rydyn ni eisiau i bawb sy'n cymryd rhan gyda Girlguiding gael profiad da, pwy bynnag ydyn nhw ac o ble bynnag maen nhw'n dod.

Dysgwch fwy am ein huchelgais ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant, ein taith hyd yma a'n cynlluniau.

Rhaid i bob gwirfoddolwr a phob aelod o staff ddilyn y polisi hwn.

## Diffiniadau a ddefnyddir yn y polisi hwn

- **Nodweddion** – rhannau o hunaniaeth rhywun. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd rhai nodweddion. Gelwir y rhain yn nodweddion gwarchodedig.
- **Hunaniaeth** – sut mae pobl yn gweld ac yn meddwl amdanyn nhw eu hunain ac eraill. Mae pobl yn aml yn defnyddio nodweddion i ddisgrifio hunaniaeth, fel rhywedd, hil neu gyfeiriadedd rhywiol.
- **Amrywiaeth** – gwneud yn siŵr bod pobl â nifer o wahanol nodweddion, cefndiroedd, hunaniaethau ac amgylchiadau yn cael eu cynrychioli.
- **Cydraddoldeb** – rhoi'r un adnoddau neu gyfleoedd i bawb.
- **Tegwch** – trin rhywun yn deg drwy ystyried yr hyn sydd ei angen arnyn nhw'n bersonol i gael yr un cyfleoedd ag eraill. Mae gan bawb

amgylchiadau gwahanol. Mae hyn yn golygu weithiau bod angen i ni drin pobl yn wahanol i roi'r un cyfleoedd iddyn nhw.
- **Cynhwysiant** – gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu croesawu, eu derbyn a'u gwerthfawrogi.
- **Staff** – unrhyw un a gyflogir gan The Guide Association, boed yn barhaol, ar gyfnod penodol neu ar gontract.
- **Gwirfoddolwr -** pawb sy'n rhoi eu hamser o'u gwirfodd i Girlguiding.

## Datganiad polisi

Rydyn ni yma i gefnogi pob merch a menyw ifanc, a'u helpu i ddatblygu a chyflawni eu potensial. Rhan fawr o hynny yw sicrhau ein bod yn cynnwys pawb. Rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn dathlu profiadau a nodweddion gwahanol. Rydyn ni eisiau i bob merch gael y cyfle i wneud pethau anhygoel, pwy bynnag ydyn nhw ac o ble bynnag maen nhw'n dod.

Ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yw bod yn fan lle mae croeso i bawb, yn rhydd i fod yn nhw eu hunain, a lle ceir ymdeimlad cyfartal o berthyn.

Mae tegwch yn bwysig iawn i'n ffordd o weithredu. Mae hyn yn golygu cydnabod bod pawb yn wahanol – felly bydd rhoi'r un cyfleoedd i bobl weithiau'n golygu eu trin yn wahanol. Rydyn ni'n disgwyl i bawb yn Girlguiding gael eu trin yn deg, ac i drin eraill yn deg, a chadw tegwch mewn cof. Er enghraifft, drwy ddarparu dogfen hyfforddi mewn print bras ar gyfer gwirfoddolwr sydd â nam ar ei olwg, rydych yn trin y gwirfoddolwr yn wahanol er mwyn rhoi mynediad cyfartal a theg iddyn nhw at gyfleoedd.

Gall ein holl wirfoddolwyr gael mynediad at ein hyfforddiant cynnwys pawb. Mae hwn yn rhoi cyngor ymarferol ar gyfer gwneud y pethau bach sy'n gwneud gwahaniaeth mawr er mwyn gwneud Girlguiding yn lle mwy croesawgar a chynhwysol.

## Ein disgwyliadau

Rydyn ni'n disgwyl i bawb yn Girlguiding wneud y canlynol:

- Trin pawb yn Girlguiding gydag urddas a pharch.
- Peidio byth â gwahaniaethu ar sail unrhyw nodwedd a warchodir gan y polisi hwn.
- Darparu amgylchedd cynnes a chyfeillgar i bawb y byddwch yn eu geidio neu'n gweithio gyda nhw yn Girlguiding.
- Gwneud Girlguiding yn amgylchedd croesawgar a chynhwysol i bawb, drwy gydnabod gwahaniaethau a gwneud addasiadau rhesymol lle bo'n briodol.
- Cydnabod ac ymateb i achosion o dorri'r polisi, yn unol â'r weithdrefn.

## Nodweddion y mae'r polisi hwn yn eu hamddiffyn

- **Oedran (18+)**. Os oes gan wirfoddolwr neu aelod o staff y sgiliau a'r galluoedd cywir ar gyfer rôl, rhaid peidio â'u hanwybyddu oherwydd eu hoedran. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am hyn yn ein polisi recriwtio a fetio gwirfoddolwyr ac ar ein tudalen geidio ac adrannau ar y we.
- **Cyfrifoldebau gofalu**. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu oherwydd bod ganddyn nhw gyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys gofalu am berson anabl, person hŷn neu blant. Edrychwch ar ein cyngor ar sut i helpu i gynnwys gofalwyr a gofalwyr ifanc.
- **Plant mewn gofal**. Ni ddylai aelodau ifanc wynebu gwahaniaethu oherwydd eu bod, neu wedi bod, yng ngofal yr awdurdod lleol. Darllenwch ein cyngor ar sut i gynnwys plant mewn gofal.
- **Anabledd**. Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i gefnogi gwirfoddolwyr, aelodau a staff anabl i gael yr un cyfleoedd a phrofiadau ag unrhyw un arall. Dylai pob aelod ifanc anabl allu mwynhau'r un rhaglen a phrofiadau eang a chytbwys â merched eraill. Darllenwch fwy ar ein tudalen cynnwys aelodau anabl ar y we.
- **Ailbennu rhywedd**. Mae hon yn nodwedd warchodedig sy'n cyfeirio at bobl draws (pobl nad yw eu rhywedd yn cyfateb i'w rhyw adeg geni). Mae gan berson nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd os yw'n

bwriadu mynd trwy, yn mynd trwy neu wedi mynd trwy broses neu ran o broses i ailbennu rhywedd. Proses bersonol yn hytrach nag un feddygol yw ailbennu rhywedd. Rydyn ni'n falch o fod yn sefydliad traws-gynhwysol. Bydd wastad croeso cynnes a lle diogel i bobl draws wrth geidio, ac mae gennym ganllawiau ar sut gall gwirfoddolwyr sicrhau bod hyn yn realiti. Ni ddylai unrhyw wirfoddolwr, aelod neu aelod o staff gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu bod yn draws.

- **Statws priodasol neu bartneriaeth sifil**. Ni ddylai gwirfoddolwyr, staff ac aelodau, dros 16 oed gael eu trin yn wahanol oherwydd eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Dysgwch fwy ar ein tudalen priodas a phartneriaeth sifil.
- **Beichiogrwydd a mamolaeth**. Ni ddylai unrhyw wirfoddolwr, aelod neu staff gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu bod yn feichiog, yn bwydo ar y fron neu wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar, heb reswm da (fel risg iechyd a diogelwch). Rhaid gwneud pob newid ymarferol er mwyn darparu ar eu cyfer.
- **Hil**. Rydyn ni'n gwybod nad yw'n ddigon i beidio â bod yn hiliol - mae'n rhaid i ni fod yn wrth-hiliol. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth fod yn wrth-hiliol ac arddel ein gwerthoedd o fod yn gynhwysol a gofalu am eraill. Wrth hil, rydyn ni'n golygu lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol.
- **Ffoaduriaid a cheiswyr lloches**. Ni ddylai unrhyw un yn Girlguiding gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu bod yn ffoadur neu'n geisiwr lloches. Dysgwch fwy am gefnogi aelodau sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches.
- **Crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg crefydd neu gred)**. Mae Girlguiding yn agored i bobl o bob ffydd a chred athronyddol a'r rhai heb ffydd a chred. Rhaid i unrhyw fynegiant o gredoau crefyddol neu athronyddol gyd-fynd â chod ymddygiad, polisïau a gwerthoedd Girlguiding. Gallwch gael mwy o wybodaeth am grefydd ar ein tudalen gwahaniaethau crefyddol a geidio.
- **Cyfeiriadedd rhywiol**. Rydyn ni'n dathlu gwahaniaeth ac yn credu y dylai pob aelod, gwirfoddolwyr a staff fod yn falch o fod yn nhw eu hunain, heb ofni gwahaniaethu. Ni ddylai unrhyw un yn Girlguiding gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Edrychwch ar ein

canllawiau i gefnogi aelodau lesbiaidd, hoyw a deurywiol am fwy o wybodaeth.

- **Rhyw, (ac eithrio** ein bod yn ofod traws-gynhwysol, merched yn unig**)**. Rydyn ni'n credu ein bod yn diwallu anghenion merched a merched ifanc orau drwy fod yn elusen i ferched yn unig, dan arweiniad merched a menywod ifanc. Mae hyn yn rhan o'n Siarter Frenhinol (y ddogfen sy'n esbonio sut rydyn ni'n cael ein rhedeg) ac mae ein hymchwil yn dangos bod ein haelodau ifanc yn cefnogi hyn. Er bod ein holl swyddi staff yn agored i bawb, dim ond merched all ddod yn aelodau ifanc. Mae rhai o'n swyddi gwirfoddol yn agored i fenywod yn unig hefyd. Er mwyn ein helpu i fod mor gynhwysol â phosib, mae diffiniad Girlguiding o ferch a menyw yn cynnwys y rhai sy'n fiolegol fenywaidd (sut bynnag y maen nhw'n uniaethu) a'r rhai y mae eu rhywedd yn ferch neu'n fenyw (merched traws a menywod traws).
- **Statws neu ddosbarth economaidd-gymdeithasol**. Ni ddylai unrhyw un yn Girlguiding gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu statws economaidd-gymdeithasol neu ddosbarth cymdeithasol. Rhaid i ni geisio dileu rhwystrau rhag cymryd rhan yn Girlguiding ar sail hyn. Dysgwch fwy am gefnogi aelodau sy'n byw mewn tlodi.

# I staff yn unig

Rydyn ni wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'n holl staff – ac i atal gwahaniaethu – drwy gydol eu hamser gyda ni. Mae hyn yn cynnwys cyfle cyfartal yn ymwneud â recriwtio, dyrchafiad, cyfleoedd hyfforddi, tâl a buddion, disgyblaeth a dethol ar gyfer diswyddiadau.

Rydyn ni eisiau cefnogi pob aelod o staff a byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol i helpu unrhyw weithiwr i gyflawni ei rôl.

Rhaid i'n holl staff gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae staff sy'n ymwneud â recriwtio, neu'n gwneud penderfyniadau eraill lle mae materion cyfle cyfartal yn debygol o godi, yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth pellach, sydd wedi'i deilwra i'w rôl.

Gall staff weld mwy am sut rydyn ni’n cefnogi cyfle cyfartal yn ein **gweithdrefn cydraddoldeb ac amrywiaeth** ar fewnrwyd y staff, neu wrth eu rheolwr.

Rhaid i Aelodau mewn Tiriogaethau Tramor Prydeinig gadw at ddeddfwriaeth leol wrth gymhwyso’r polisi hwn, lle bo’n berthnasol.